

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Aseu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y newidiadau i'r trefniadau aseu. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

9 Mai 2022

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio a datgymhwysio asesiadau statudol presennol yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn barod ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru, neu o ganlyniad i'w gyflwyno.
- 1.2 Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn dileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copiâu papur o'u prospectws blynyddol i rieni a disgyblion ym mlwyddyn olaf ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a allai drosglwyddo i ysgolion eraill a gynhelir felly. Bydd y newid hwn yn gymwys i gyhoeddi prospectws blynyddol yr awdurdod lleol y mae rhaid ei gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2022 fan bellaf.

2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Pasiwyd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn y Senedd ar 9 Mawrth 2021 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021. Mae Deddf 2021 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer cwricwlwm newydd a threfniadau asesu newydd ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru (y Cwricwlwm i Gymru).
- 3.2 Mae adran 56 o Ddeddf 2021 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer asesu mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol. Gwnaed Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022 o dan adran 56 ac roeddent yn nodi'r trefniadau asesu newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Disgwylir i'r Cwricwlwm i Gymru ddod i rym fesul cam o 1 Medi 2022.
- 3.3 Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru nodi trefniadau asesu i gefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol yn adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Mae Deddf 2002 yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi mewn Gorchymyn unrhyw drefniadau asesu y maent yn ystyried eu bod yn briodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol.

- 3.4 Fel y nodir uchod, mae'r trefniadau asesu hyn yn cael eu disodli gan drefniadau asesu newydd fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- 3.5 Mae'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn cael eu gwneud fesul cam, yn barod ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac wrth iddo gael ei gyflwyno. Mae Rhan 2 o Reoliadau 2022 yn gwneud darpariaeth yn barod ar gyfer cam cyntaf cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i blant a disgyblion yng Nghymru ar 1 Medi 2022 i ddiwygio a dirymu nifer o Orchmynion a wnaed o dan adran 108 o Ddeddf 2002. Mae'r Gorchmynion hynny'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r trefniadau asesu ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol a nodir yn Rhan 7 o Ddeddf 2002.
- 3.6 Mae Rhan 3 o Reoliadau 2022 yn gwneud diwygiadau i'r rheoliadau a ganlyn o ganlyniad i ddarpariaethau Rhan 1 a 2 o'r Rheoliadau hynny:
- Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adrodd"), a
 - Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Perfformiad").
- 3.7 Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion"). Maent yn rhagnodi gwybodaeth ysgolion y mae rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion ei chyhoeddi mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd 2011-2012 a blynyddoedd dilynol. Mae rheoliad 11 o Reoliadau 2022 yn hepgor paragraff (2)(c) yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion hynny er mwyn dileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddsbarthu copïau papur o'u prospectws i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo.

Y weithdrefn

- 3.8 Mae Rheoliadau 2022 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben Rheoliadau 2022 yw dileu'r gofynion a ganlyn:
- asesiadau diwedd y cyfnod sylfaen
 - asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2
 - asesiadau diwedd cyfnod allweddol 3 mewn ysgolion arbennig
 - y gofyniad i gymedroli asesiadau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Bwriedir i hyn greu hyblygrwydd i ysgolion yn y flwyddyn ysgol gyfredol wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022, a'u galluogi nhw i gynllunio trefniadau pontio priodol i'r Cwricwlwm i Gymru.

- 4.2 Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn darparu ar gyfer dirymu'r trefniadau asesu hynny sy'n weddill ar ôl i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno'n llawn ar gyfer y disgyblion hynny yr effeithir arnynt.
- 4.3 Mae'r trefniadau asesu hyn yn ymwneud â dysgwyr y Cyfnod Sylfaen (3 i 7 oed), Cyfnod Allweddol 2 (7 i 11 oed) a Chyfnod Allweddol 3 (11 i 14 oed). Manylir ar ddarpariaethau penodol isod.
- 4.4 Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn dileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddsbarthu copïau papur o'u prospectws i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo, pa un a ydynt am gael un ai peidio. Bydd y newid yn dileu baich gweinyddol ac ariannol diangen ar awdurdodau lleol, gan leihau'r amser a'r costau sy'n gysylltiedig ag argraffu, dosbarthu a storio y byddai'n well eu defnyddio ar godi safonau ysgolion. Bydd y newid hefyd yn sicrhau nad yw rhieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo nad ydynt am gael copi o'r prospectws yn cael un, gan helpu i sicrhau bod prosesau awdurdodau lleol yn fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar. Bydd hi'n parhau i fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi eu prospectws blynyddol ar eu gwefan a sicrhau bod copïau ar gael ar gais yn eu swyddfeydd ac mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol, ac y gellir cyfeirio atynt mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

Cychwyn

- 4.5 Daw Rheoliadau 2022 i rym ar 30 Mai 2022.
- 4.6 Bydd y Cwricwlwm i Gymru ei hun yn cael ei gyflwyno fesul cam. Ar gyfer dysgwyr hyd at 14 oed, bydd hyn yn digwydd rhwng blynyddoedd academaidd 2022-23 a 2024-25. Bydd yn dod yn orfodol i'r grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn—
- a) 1 Medi 2022 ar gyfer—
 - plant sy'n derbyn addysg feithrin a ariennir,
 - disgyblion yn eu blwyddyn derbyn,
 - disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6,
 - b) Ar 1 Medi 2022 ar gyfer disgyblion mewn grwpiau blwyddyn 7 yn yr ysgolion hynny a lleoliadau eraill lle mae cwricwlwm wedi'i fabwysiadu neu wedi'i ddarparu fel arall yn unol â'r Ddeddf,
 - c) Ar 1 Medi 2023 ar gyfer disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn 7 arall,
 - d) Ar 1 Medi 2023 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 8 ac,
 - e) Ar 1 Medi 2024 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 9.

Y newidiadau deddfwriaethol

4.7 Mae'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn cael eu gwneud er mwyn helpu i bontio'n ddiraffferth o'r trefniadau asesu presennol yn y cwricwlwm presennol i'r trefniadau asesu newydd o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae rhai gofynion yn cael eu dileu cyn cyflwyno'r cwricwlwm er mwyn creu hyblygrwydd i ysgolion wrth iddynt baratoi, ac mae eraill yn cael eu dileu wrth i'r gofynion newydd gael eu cyflwyno.

Dileu gofynion i greu hyblygrwydd i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru

Dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2

4.8 Mewn Datganiad Llafar i'r Senedd ar 6 Gorffennaf, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ei gynnig i ddileu'r gofynion i ymarferwyr gynnal asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 flwyddyn cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, y naill a'r llall o flwyddyn academaidd 2021-22 ymlaen.

4.9 Mae'r gofynion hyn yn cael eu dileu i helpu i greu mwy o le i ymarferwyr i baratoi eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu ar gyfer mis Medi 2022. Mae hefyd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd iddynt i symud tuag at y dull asesu sy'n rhan o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sydd i'w weld yn Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu.

4.10 Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2022 yn dirymu Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004, gan ddileu'r gofyniad i gynnal asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 o 2021-22. Mae hyn yn effeithio ar ddysgwyr ym Mlwyddyn 6. Mae rheoliad 8 yn dirymu Rhan 3 a Rhan 4 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015. Mae hyn yn dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen o 2021-22, felly ni fydd disgwyl i ddysgwyr Blwyddyn 2 ymgymryd â'r asesiadau hyn. Mae rheoliad 8 hefyd yn dirymu'r asesiad sylfaenol a gynhaliwyd am y tro olaf gan ddysgwyr ym mlwyddyn derbyn yn ystod chwe wythnos gyntaf blwyddyn academaidd 2021-22.

Dileu cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3.

4.11 Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015 ("Gorchymyn 2015") yn nodi'r gofynion ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon yn ystod blwyddyn olaf Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd wedi'i wneud o dan adran 108 o Ddeddf 2002.

4.12 Gan fod asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn cael eu dirymu o 2021-22, mae'r gofyniad i gymedroli'r asesiadau athrawon hyn hefyd angen ei ddileu.

4.13 O dan y trefniadau presennol, mae ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn dod at ei gilydd i ffurfio grwpiau clwstwr cymedroli ysgolion i gymedroli asesiadau athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod

Allweddol 3. Mae'r lefelau cyrhaeddiad sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglenni Astudio y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'u hen sefydlu ac wedi eu defnyddio gan ymarferwyr ers blynnyddoedd lawer. Felly, ystyrir ei bod yn annheg ac yn anghymesur ei gwneud yn ofynnol i ysgolion uwchradd wneud trefniadau newydd gydag ysgolion uwchradd eraill i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 yn ystod y cyfnod interim hyd nes y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno i Flwyddyn 9 yn 2024-25. Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2022 felly yn dirymu Gorchymyn 2015.

- 4.14 Fodd bynnag, byddwn yn amlinellu yn y canllawiau ein cyngor i ysgolion eu bod yn parhau i sicrhau cysondeb i'w dysgwyr yn y modd y cânt eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, yn eu hysgol. Wrth gwrs, ni fydd yn orfodol iddynt wneud hynny.
- 4.15 Mae dileu'r gofyniad hwn i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 o flwyddyn academaidd 2021-22 yn creu mwy o le i ymarferwyr gymryd rhan mewn trafodaethau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn a rhwng ysgolion a lleoliadau wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac fel rhan o'r gwaith o'i ymgorffori yn eu hysgol.

Dileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig

- 4.16 Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 ("Gorchymyn 2005") yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu disgyblion ym mlwyddyn olaf y trydydd cyfnod allweddol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Gwnaed Gorchymyn 2005 o dan adran 108 o Ddeddf 2002.
- 4.17 Mae rheoliad 4(1) o Reoliadau 2022 yn dirymu'r gofyniad i ysgolion arbennig ymgymryd ag asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 o 2021-22. Mae'r diwygiad hwn yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i'r adborth a gafwyd gan ysgolion arbennig yn ystod yr ymgynghoriad ar ddileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2, yn ogystal â'r gofynion cymedroli cyfredol.
- 4.18 Mae ysgolion arbennig yn addysgu eu dysgwyr yn unol â'u hanghenion yn hytrach na'u hoedran. Felly, pan fydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno, byddai'n anodd i ymarferwyr asesu o fewn yr un dosbarth rai dysgwyr sy'n ffitio orau â lefelau diwedd Cyfnod Allweddol 3 ac eraill yn unol â threfniadau asesu yr ysgol o dan y Cwricwlwm i Gymru. Dim ond nifer bach o ddysgwyr mewn ysgolion arbennig sy'n cael lefelau diwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr mewn ysgolion arbennig yn cael eu tynnu o asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 bob blwyddyn gan nad ydynt yn hygyrch iddynt.
- 4.19 Byddai dileu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig o 2021-22 yn helpu i roi'r hyblygrwydd iddynt i wneud trefniadau pontio priodol ar gyfer eu hysgol a chanolbwyntio ar gefnogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd.
- 4.20 Mae rheoliad 4(2) o Reoliadau 2022 yn dirymu asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol arall o 1 Medi 2024, pan fydd y Cwricwlwm i

Gymru yn cael ei gyflwyno ym Mlwyddyn 9.

Asesu parhaus o dan y cwricwlwm cenedlaethol

- 4.21 Mae rheoliad 6 o Reoliadau 2022 yn datgymhwysu Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014 ("Gorchymyn 2014") i gyd-fynd â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Caiff Gorchymyn 2014 ei ddirymu ar 1 Medi 2024. O 1 Medi 2024 ymlaen bydd pob disgybl a asesir yn unol â Gorchymyn 2014 yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru ac ni fydd angen Gorchymyn 2014 mwyach.

Diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i ddileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2, ac asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig.

- 4.22 Mae'r Rheoliadau Adrodd yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid sicrhau bod adroddiad ar gael i bob rhiant neu ddisgybl sy'n oedolyn am gyrhaeddiad addysgol disgyblion bob blwyddyn ysgol. Mae gofyniad i gynnwys adroddiadau gynnwys deilliannau asesiadau athrawon mewn cysylltiad â disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Mae rheoliad 9 o Reoliadau 2022 felly yn diwygio'r rheoliadau hyn i ddileu'r gofynion i adrodd deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 (a deilliannau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig) o 2021-22.

- 4.23 Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu adrodd ar ddeilliannau asesiadau athrawon, profion cenedlaethol ac arholiadau i awdurdodau lleol. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu'r un wybodaeth i Weinidogion Cymru. Hefyd, maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu adrodd deilliannau asesiadau athrawon i ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 i awdurdodau lleol, ac i awdurdodau lleol adrodd deilliannau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 i Lywodraeth Cymru. Mae rheoliad 10 o Reoliadau 2022 felly yn diwygio'r rheoliadau hyn i ddileu'r gofynion hyn mewn perthynas â deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2, a deilliannau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig dim ond o 2021-22. Gweler hefyd baragraffau 4.27 a 4.29 i gael manylion ynghylch dileu'r gofyniad i adrodd canlyniadau asesiadau personol i'r Awdurdod Lleol. Bydd y gofyniad i adrodd deilliannau arholiadau yn aros.

Cyflwyno dileu'r darpariaethau asesu presennol fel gofynion sy'n ymwneud ag asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru.

- 4.24 Diben asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Mae Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu yn nodi ein bod yn asesu am dri rheswm allweddol, sef:

- cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd,
- pennu cynnydd dysgwr unigol dros amser, llunio darlun ohono, a myfyrio arno,
- deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion.

O'r herwydd, bydd y trefniadau newydd yn canolbwyntio ar asesu parhaus i nodi'r camau dysgu nesaf.

4.25 Yn ogystal â'r darpariaethau a amlinellir uchod, mae Rheoliadau 2022 yn dirymu'r gofynion asesu sy'n weddill sy'n cefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol yn unol â'r bwriad i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd y trefniadau asesu presennol hynny yn cael eu disodli gan y rhai a nodir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022.

Asesiadau personol ar gyfer darllen a rhifedd

4.26 Bydd yr asesiadau darllen a rhifedd blynyddol, a nodir yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013"), yn parhau fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn darparu offeryn hyblyg i athrawon i gael adborth ar sgiliau dysgwyr a grwpiau unigol, i gefnogi dealltwriaeth o ddilyniant sgiliau ar hyd y continwwm dysgu, ac i helpu i ddeall cynnydd unigolion a grwpiau dros amser.

4.27 Bydd y ddarpariaeth drosiannol yn Rheoliadau 2022 (rheoliad 5) yn sicrhau y bydd yr asesiadau personol ('profion' Gorchymyn 2013) yn parhau i gael eu gweinyddu ym mhob ysgol ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 yn ystod blynyddoedd academaidd 2022-23 a 2023-24, ni waeth ble mae dysgwyr/ysgolion o ran cyflwyno fesul cam y Cwricwlwm i Gymru. Caiff Gorchymyn 2013 ei ddirymu'n llawn ar 1 Medi 2024, a'r bwriad yw gwneud rheoliadau newydd mewn perthynas ag asesu darllen a rhifedd a fydd yn gymwys o fis Medi 2024 ymlaen ar ôl cynnwys Blwyddyn 9 yn y Cwricwlwm i Gymru.

4.28 Cedwir y gofyniad i benaethiaid adrodd i rieni a gofalwyr ar ddeilliannau'r asesiadau darllen a rhifedd statudol o dan y Rheoliadau Adrodd.

4.29 Bydd Rheoliadau 2022 yn dileu'r gofyniad i ysgolion gyflenwi data ar yr asesiadau personol i awdurdodau lleol. Cyflwynwyd hwn mewn diwygiad yn 2014 i'r Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion, ar ôl i'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol gael eu cyflwyno. Er bod awdurdodau lleol wedi chwarae rhan yn y gwaith o gasglu data profion gan ysgolion ar ran Llywodraeth Cymru, nid oes angen hyn bellach gan fod yr asesiadau ar-lein a'r data yn cael eu casglu yn awtomatig.

4.30 Mae hefyd yn cyd-fynd â'r polisi o ddatgysylltu asesiadau o atebolrwydd (paragraff 8.156 o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021: 'o dan y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, bydd rhaniad clir rhwng asesu ac atebolrwydd allanol/monitro cenedlaethol...diben hyn yw rhoi terfyn ar y defnydd o wybodaeth asesu lle mae llawer yn y fantol,

gan sicrhau mai diben asesu o fewn y cwricwlwm yw helpu pob dysgwr i wneud cynnydd'). Cynhaliwyd ymgynghoriad yn gynnar yn 2020 ar y cynnig i ddileu'r gofyniad i ysgolion gyflenwi data i awdurdodau lleol, gyda mwyafrif clir yn ymateb o blaid. Mae'r newid yn y ddeddfwriaeth wedi bod yn yr arfaeth ers hynny gan fod gofynion adrodd dros dro wedi'u rhoi ar waith yn sgil Covid. Er mwyn dileu'r gofyniad hwn yn barhaol, mae bellach wedi'i ymgorffori yn Rheoliadau 2022.

Dileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddsbarthu copïau papur o'u prosectws i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo

- 4.31 Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth am Ysgolion yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi prosectws cyfansawdd blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn nodi'r wybodaeth gyffredinol y mae rhaid ei chynnwys yn y prosectws. Diben y ddyletswydd yw sicrhau bod gan rieni fynediad at ystod o wybodaeth berthnasol er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am yr ysgol yr hoffent i'w plentyn ei mynychu.
- 4.32 Rhaid cyhoeddi'r prosectws erbyn 1 Hydref fan bellaf yn y flwyddyn ysgol gyhoeddi a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos cyn y dyddiad olaf y gall rhieni fynegi dymuniad o ran ysgol mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol derbyn. Mae rheoliad 5(2) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i brosectws cyfansawdd gael ei gyhoeddi:
- (a) drwy sicrhau bod copïau ar gael i'w dosbarthu'n ddi-dâl i rieni ar gais yn swyddfeydd yr ALI sy'n ei gyhoeddi, ac ym mhob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw; a
 - (b) drwy sicrhau bod copïau ar gael i rieni a phersonau eraill gyfeirio atynt yn y llyfrgelloedd cyhoeddus yn ardal yr ALI hwnnw; ac
 - (c) drwy ddsbarthu copïau'n ddi-dâl i rieni a disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALI, ac eithrio ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion, sydd yn y flwyddyn olaf mewn ysgolion o'r fath ac a allai drosglwyddo i ysgolion eraill o'r fath a gynhelir felly; ac
 - (ch) drwy arddangos copi ar wefan yr awdurdod lleol.
- 4.33 Mae rheoliad 11 o Rheoliadau 2022 yn hepgor paragraff (2)(c) yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion.

5 Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 7 wythnos rhwng 14 Chwefror 2022 ac 1 Ebrill 2022 ar y cynigion i ddileu agweddau ar y trefniadau asesu presennol cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a dileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i

ddosbarthu copïau papur o'u prosbectws i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo. Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu â chynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, undebau athrawon a rhanddeiliaid ehangach.

- 5.2 Daeth 104 o ymatebion i law. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynigion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. O'r herwydd, maent bellach wedi'u hymgorffori yn Rheoliadau 2022.
- 5.3 Ceir manylion ynghylch yr adborth a gafwyd mewn perthynas ag asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig ym mharagraffau 4.16-4.20.
- 5.4 Mae'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael ar-lein yma:
<https://llyw.cymru/newidiadau-i-drefniadau-asesu-ysgolion-cyfredol-phrosbectws-awdurdodau-lleol>

RHAN 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol

6. Dileu'r trefniadau asesu presennol wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, neu o ganlyniad i'w gyflwyno

6.1 Mae dau opsiwn wedi'u hystyried yn yr aseiad hwn.

Opsiwn 1 - 'Busnes fel Arfer' - Cadw'r trefniadau presennol

6.2 Nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

6.3 Ystyriwyd a ellid cadw'r trefniadau asesu presennol i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol a'r Cwricwlwm i Gymru, a'u trefniadau asesu cysylltiedig, sy'n golygu na fyddai'r opsiwn hwn yn hyfyw. Sybsidiaredd yw un o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru ac o dan Ddeddf 2021, mae'n ofynnol i ysgolion a lleoliadau wneud eu trefniadau asesu eu hunain i gefnogi eu cwricwlwm eu hunain a ddatblygwyd o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cefnu ar gwricwlwm cenedlaethol, felly byddai cadw aseuadau lle rhoddir deilliannau a lefelau a ragnodir yn genedlaethol i ddysgwyr yn tanseilio'r dull newydd hwn yn sylweddol.

6.4 Diben asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Mae adran 56 o Ddeddf 2021 yn nodi bod trefniadau asesu yn drefniadau ar gyfer asesu, mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol—

- y cynnydd a wneir gan ddisgyblion a phlant,
- y camau nesaf yn eu cynnydd, ac
- yr addysgu a'r dysgu sydd ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.

6.5 O'r herwydd, bydd y trefniadau newydd yn canolbwyntio ar asesu parhaus i nodi'r camau nesaf mewn dysgu. Mae'r aseuadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd y Cyfnodau Allweddol yn grynodol o ran natur. Gwneir dyfarniad ar gyrhaeddiad cyffredinol dysgwr ar adeg benodol, drwy ddyrannu deilliant neu lefel ar sail 'ffit orau'. Byddai'r dull hwn yn tanseilio'r ffocws ar asesu parhaus. At hynny, mae parhau i ddyrannu deilliant ar sail 'ffit orau' yn gwrth-ddweud ffocws asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru, sef datblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, ei feysydd i'w datblygu a nodi camau nesaf y dysgu.

Opsiwn 2 – Cyflwyno'r Rheoliadau

6.6 Mae Rheoliadau 2022 yn dileu'r gofynion a ganlyn o'r flwyddyn academaidd hon (2021/22):

- Aseuadau diwedd y Cyfnod Sylfaen
- Aseuadau diwedd Cyfnod Allweddol 2
- Aseuadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig
- Cymedroli asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

6.7 Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cynnig cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn creu hyblygrwydd i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd o fis Medi 2022 ymlaen a chaniatáu iddynt roi trefniadau pontio priodol ar waith.

6.8 O ganlyniad i'r cynigion hyn, mae Rheoliadau 2022 yn dileu'r gofynion i adroddiadau penaethiaid i rieni gynnwys y canlynol o 2021/22:

- deilliannau asesiadau athrawon diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2
- gyfer ysgolion arbennig yn unig, deilliannau asesiadau athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 3

6.9 At hynny, ni fyddai'n ofynnol mwyach i gyrrff llywodraethu ysgolion adrodd ar ddeilliannau asesiadau athrawon ar gyfer disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2, a diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig, i awdurdodau lleol, ac ni fyddai hi'n ofynnol mwyach i awdurdodau lleol adrodd yr wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru.

6.10 Ni fyddai'n ofynnol mwyach i gyrrff llywodraethu ysgolion anfon canlyniadau asesiadau darllen a rhifedd statudol, a elwir yn 'asesiadau personol', at eu hawdurdod lleol. Roedd gan awdurdodau lleol rôl weinyddol o ran cefnogi'r gwaith o gasglu data Llywodraeth Cymru ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol papur blaenorol. Fodd bynnag, nid yw hyn bellach yn wir am y fersiynau ar-lein lle caiff data eu casglu'n awtomatig.

6.11 Mae Rheoliadau 2022 yn dirymu'r gofynion asesu sy'n weddill sy'n cefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol yn unol â'r bwriad i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd y trefniadau asesu presennol yn cael eu disodli gan y rhai a nodir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022.

6.12 Byddai dileu'r gofynion asesu presennol i bob pwrpas yn dileu'r asesiadau sy'n cefnogi cwricwlwm a ragnodir yn genedlaethol mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Asesiad sylfaenol a gynhelir o fewn 6 wythnos gyntaf y flwyddyn derbyn, gan ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen.
- Asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen lle rhoddir Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen i ddysgwyr fel yr amlinellir yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.
- Asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3 lle rhoddir Lefelau i ddysgwyr fel yr amlinellir yn Rhaglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Cymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3.
- Asesu dysgwyr drwy gydol y flwyddyn er mwyn monitro a chefnogi eu cynnydd mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd (gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd)

6.13 Byddai dileu'r gofynion hyn yn creu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar ysgolion i ddatblygu eu trefniadau asesu eu hunain i gefnogi cwricwlwm eu hysgol o dan y Cwricwlwm i Gymru.

6.14 Bydd y gofyniad i ysgolion gynnal asesiadau personol mewn darllen a rhifedd yn parhau i fod ar waith ar gyfer pob grŵp blwyddyn drwy gydol y cyfnod pontio a phan fydd y trefniadau asesu newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu'n llawn. Nod asesiadau personol yw helpu i sicrhau dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr unigol fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011

6.15 Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") yn rhagnodi gwybodaeth am ysgol y mae rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion ei chyhoeddi. Mae Rhan 2 o Reoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi prosiectws cyfansawdd yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phob ysgol a gynhelir yn ardal y prosiectws.

6.16 Rhaid i'r prosiectws cyfansawdd gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 1 Hydref bob blwyddyn neu ddim hwyrach na 6 wythnos cyn y gall rhieni fynegi eu dymuniad o ran ysgol (i) drwy sicrhau bod copïau ar gael i'w dosbarthu'n ddi-dâl i rieni ar gais; (ii) drwy sicrhau bod copïau ar gael i rieni a phersonau eraill gyfeirio atynt yn y llyfrgelloedd cyhoeddus yn ardal yr ALI hwnnw; (iii) drwy ddsbarthu copïau'n ddi-dâl i rieni a disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALI (ac eithrio ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion) sydd yn y flwyddyn olaf mewn ysgolion o'r fath ac a allai drosglwyddo i ysgolion eraill o'r fath a gynhelir felly; a (iv) drwy arddangos copi ar wefan yr awdurdod lleol (rheoliad 5).

6.17 Mae Rheoliadau 2022 yn dileu (iii), y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddsbarthu copïau o'u prosiectws i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo.

6.18 Mae dau opsiwn wedi'u hystyried yn yr asesiad hwn.

Opsiwn 1 - 'Busnes fel Arfer' - Cadw'r trefniadau presennol

6.19 Nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

6.20 Mae mwyfwy o bobl yn cael gafael ar wybodaeth ar-lein drwy'r rhyngwrwd. Mae hyn yn cynnwys ystod o wybodaeth am ysgolion, er enghraifft adroddiadau arolygu Estyn a data amrywiol ar ysgolion ar wefan Fy Ysgol Leol. Gall rhieni a phobl ifanc sydd â mynediad i'r rhyngwrwd gael gafael ar gopi o brosiectws yr awdurdod lleol ar-lein. Gall y rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwd gael copi ar gais o swyddfeydd yr awdurdod lleol, o unrhyw ysgol yn ardal yr awdurdod lleol, neu gallant gael copi i gyfeirio ato mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

6.21 Bydd cynnal y trefniadau presennol yn golygu y bydd yn ofynnol o hyd i awdurdodau lleol ddsbarthu copïau papur o'u prosiectws blynyddol i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo yn yr ysgol, p'un a ydynt wedi gofyn am un ai peidio. Bydd hyn yn parhau i roi baich diangen ar awdurdodau lleol ynghyd â'r gost sy'n gysylltiedig â chyhoeddi a dosbarthu. Bydd rhieni a disgyblion yn parhau i dderbyn copïau papur nad oeddent wedi gofyn amdanynt ac nad ydynt yn dymuno eu cael a bydd hyn yn parhau i gael effaith negyddol ar yr amgylchedd.

Opsiwn 2 – Cyflwyno'r Rheoliadau

6.22 Mae Rheoliadau 2022 yn dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol ddsbarthu copiâu o'u prospectws blynyddol i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo. Bydd y newid yn dileu baich gweinyddol ac ariannol diangen ar awdurdodau lleol, gan leihau'r amser a'r costau sy'n gysylltiedig ag argraffu, dosbarthu a storio y byddai'n well eu defnyddio i godi safonau ysgolion. Bydd y newid hefyd yn sicrhau nad yw rhieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo nad ydynt yn dymuno cael copi o'r prospectws yn cael un, gan helpu i sicrhau bod prosesau awdurdodau lleol yn fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

6.23 Bydd hi'n ofynnol o hyd i awdurdodau lleol gyhoeddi eu prospectws blynyddol ar eu gwefan a sicrhau bod copiâu ar gael ar gais yn eu swyddfeydd, yn yr ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol, a hefyd ar gyfer cyfeirio atynt mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

Costau a manteision

6.24 Ni fydd ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r darpariaethau arfaethedig a amlinellir yn Rheoliadau 2022. Bydd Rheoliadau 2022 yn dileu'r gofynion ar benaethiaid a chyrrff llywodraethu ac felly byddant yn creu arbedion mewn perthynas â chostau ac amser staff. Er enghraifft, byddai dileu'r gofynion i gymedroli asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3 yn dileu'r baich gweinyddol ar ymarferwyr wrth gasglu portffolios o waith dysgwyr ynghyd a'r costau cyflenwi ar gyfer eu rhyddhau i fynyachu cyfarfodydd grŵp cymedroli.

6.25 Ni fydd dileu'r trefniadau asesu hyn yn cael effaith negyddol ar gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd. Rydym yn cynnig dileu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2, ac asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion arbennig, o'r flwyddyn academaidd hon (2021/22) ymlaen. Fodd bynnag, fel rhan o asesu dysgwyr yn ystod 2021/22, bydd ymarferwyr wedi parhau i wneud y canlynol:

- Cynnal yr asesiad sylfaenol statudol ar gyfer pob dysgwr o fewn 6 wythnos gyntaf y flwyddyn derbyn.
- Cefnogi dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 drwy asesu parhaus i wneud cynnydd effeithiol ar draws y cwricwlwm presennol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd (gan ddefnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd).
- Sicrhau bod dysgwyr ym mlwyddyn 2 a phob grŵp blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn sefyll Asesiadau Personol mewn Darllen a Rhifedd yn unol â'r llawlyfr gweinyddu.
- Cynnal asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol arall ac eithrio ysgolion arbennig.

6.26 Mae'r gofynion asesu sy'n weddill yn cael eu dileu wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i'r grwpiau blwyddyn perthnasol. Ar hyn o bryd, bydd ysgolion yn gwneud trefniadau asesu ar gyfer eu dysgwyr yn unol â'r gofynion a nodir yn

Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022, a wnaed o dan adran 56 o Ddeddf 2021.

6.27 At hynny, drwy ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copïau papur o'u prospectws blynyddol i rieni a disgyblion yn eu blwyddyn drosglwyddo, bydd Rheoliadau 2022 yn arwain at arbedion o ran amser staff a chostau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi a dosbarthu. Opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefir.

Asesu'r Gystadleuaeth

6.28 Mae'r prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gwblhau, nid yw'r Rheoliadau'n cael unrhyw effaith ar fusnesau preifat ac ni ddisgwylir iddynt effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau o Gymru.